Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST
Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: pennaeth@glanconwy.conwy.sch.uk

Annwyl Rieni / Gofalwyr, 7/09/18

Croeso yn ôl i chwi oll yn dilyn gwyliau'r haf. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau ac wedi cael cyfle i ymlacio ar gyfer prysurdeb blwyddyn newydd yn yr ysgol. Croeso **MAWR** i'r plant newydd yn ein mysg yn nosbarth y Meithrin ac hefyd yn y blynyddoedd eraill yn yr ysgol ac wrth gwrs i bawb arall yn yr ysgol. Croeso hefyd i Miss Ann sydd wedi dychwelyd atom i weithio yn bennaf gyda'r dosbarth meithrin.
Mae rhai pethau sydd angen eu hatgoffa ar ddechrau blwyddyn fel hyn:

Clwb Brecwast

Mae croeso i unrhyw blentyn yn yr ysgol fynychu'r Clwb Brecwast yn dilyn llenwi'r ffurflen angenrheidiol (gofynnwch i Mr Morris am gopi). Fe fydd yn dechrau am **8:10y.b. ond ni ddylai unrhyw blentyn fod yma cyn yr amser yma**. **O ran lles a diogelwch eich plentyn nid ydyw staff y Clwb Brecwast yn gyfrifol am y plant hyd 8.10y.b. ac nid ydyw staff yr ysgol yn gyfrifol am y plant hyd 8.45y.b.** Fe fydd drws a giât yr ysgol ar gau hyd 8:10y.b. ac o 8.30y.b. hyd 8.45y.b. Hyderaf y byddech yn cyd-weithio â ni gyda'r mater ac nid yn cymryd mantais o hyn.

Ysgol Iach

Gan ein bod yn Ysgol Iach annogir pawb i ddod a byrbryd iach i'r ysgol h.y.ffrwyth ac **nid fferins neu bariau llawn siwgr**. Mae hyn hefyd yn cynnwys diodydd. Mae dŵr ar gael os ydyw eich plant ei eisiau. Awgrymir eu bod yn dod a'u potel neu cynhwysydd eu hunain er mwyn ei ddefnyddio yn y ffynnon ddŵr ar gyfer hylendid.

Presenoldeb

Diolch yn fawr i bawb am eich cydweithrediad mewn osgoi gwyliau yn ystod y tymor. Rydym yn anelu eto eleni at bresenoldeb o 96% i bawb. Ein presenoldeb ar gyfer 2017-18 oedd 95.2%.
Llongyfarchiadau mawr i'r pump disgybl a lwyddodd i gael 100% o bresenoldeb y flwyddyn diwethaf ac i'r 72 disgybl a gyrhaeddodd 96% ac uwch, gwych!
Fe fyddem yn tracio presenoldeb yn wythnosol ac yn cysylltu â chi os ydym yn pryderu am bresenoldeb eich plentyn. **Ni fyddwn yn ystyried awdurdodi unrhyw wyliau oni bai fod presenoldeb eich plentyn yn 94% neu uwch ac mewn amgylchiadau eithriadol** (hyd at 5 diwrnod).
Bydd unrhyw bresenoldeb sy'n is na 90% yn cael ei gwestiynu a gall cael ei gyfeirio at y Swyddog Lles Addysg. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau di-awdurdod, meddygol a **gwyliau.** Mae hi'n hanfodol os ydyw eich plentyn yn absennol am unrhyw reswm i gysylltu â'r ysgol cyn gynted a phosib trwy ffonio neu trwy lythyr esboniad os gwelwch yn dda.

Addysg Gorfforol Tymor yr Hydref

A fedrwch sicrhau fod dillad addysg gorfforol y plant yn yr ysgol ar y dyddiau priodol os gwelwch yn dda. Siort du a chrys-T gwyn. Mewn tywydd oer gall y disgyblion wisgo jogyrs a chrys chwys. (Mae hi'n syniad da i adael y dillad yma trwy'r wythnos fel nad ydi'r dillad yn cael eu gadael adref ar gyfer y sesiwn nesaf.)

Meithrin - dydd Iau
Derbyn a Bl.1 - dydd Mawrth a dydd Iau
Blwyddyn 2 – dydd Mawrth & dydd Mercher
Blwyddyn 3 & 4 - dydd Mawrth
Blwyddyn 5 & 6 - dydd Gwener

Fe fydd disgyblion Bl.3, 4, 5 & 6 yn cymryd rhan yn y **nofio dwys** eto eleni am bythefnos o'r wythnos yn dechrau'r 5ed o Dachwedd (**05/11/18 – 16/11/18**). Mwy o fanylion i ddilyn.
Mae pethau wedi newid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ers llynedd yn anffodus. Y gobaith ydi mynd a blwyddyn 1 a 2 yn wythnosol dros tymor yr haf. Oherwydd y newidiadau gan y sir ni fydd dosbarth Derbyn yn derbyn gwersi nofio eleni yn anffodus.

Arian Cinio

Cost dyddiol cinio ysgol i bawb: £2.30
Gofynnwn i chi dalu cinio o flaen llaw pob wythnos os gwelwch yn dda. Mae croeso i chi dalu am sawl wythnos neu hanner tymor ar y tro os ydych eisiau. Mae 8 wythnos yn yr hanner tymor yma.
Gofynnir, os yn bosib i chi dalu trwy gwefan Parentpay (cysylltwch â'r swyddfa os ydych angen côd dechreuol neu cymorth). Os nad ydych yn gallu talu trwy'r wefan yna mae'n bosib talu trwy'r swyddfa. Sieciau- yn daladwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Arian - Mae yn rhaid i **BOB ARIAN** gael ei roi mewn **amlen** gyda enw a dosbarth eich plentyn wedi ei ysgrifennu yn glir arno a hefyd pa ddiwrnod/au mae eich plentyn wedi cael cinio os gwelwch yn dda**. Os na fydd arian sy'n ddyledus am ginio yn cael ei dalu erbyn diwedd yr wythnos ni fyddem yn caniatáu i'ch plentyn gael mwy o ginio hyd y bydd y ddyled yn cael ei glirio a bydd angen iddynt ddod â phecyn bwyd i'r ysgol.** Yn anffodus nid oes gan yr ysgol arian wrth gefn i dalu cinio disgyblion.
Ni fyddem yn derbyn unrhyw arian rhydd. Mae yn rhaid i ni wneud hyn er mwyn sicrhau fod eich arian yn cyrraedd yn ddiogel ac ddim yn mynd ar goll! Yr wyf yn siwr eich bod yn deall fod yna lawer o arian gwahanol yn cyrraedd yr ysgol yn ystod pob wythnos ac mae angen i ni sicrhau ei fod yn mynd i'r lle cywir. Diolch am eich cydweithrediad yn y mater yma.

Siop Ffrwythau

Fe fydd disgyblion blwyddyn 5 & 6 yn cymryd yr awenau am redeg y siop eleni fel rhan o'u gwaith rhifedd. O ddydd Llun nesaf ymlaen fe fydd y gost yn 30c y dydd neu yn £1.50 am yr wythnos gyfan. Er mwyn helpu'r swyddogion siop, ac arbed unrhyw gamddealltwriaeth gofynnwn i chi dalu, unai:

- 30c yn ddyddiol * Yn wythnosol - £1.50 ar ddydd Llun yn unig. Dim fesul rhan o wythnos os gwelwch yn dda.
- Am hanner tymor -£10.20 dydd Llun nesaf hyd at hanner tymor.

Dillad - A fedrwch sicrhau fod dillad eich plentyn wedi ei labelu'n glir â'u henw. Diolch.

Diolch am eich cydweithrediad gyda'r materion uchod.

Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST

Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: pennaeth@glanconwy.conwy.sch.uk

Dear Parents / Carers, 7/9/18

A warm welcome to you all back after the summer holidays. I hope you have all enjoyed your holidays and have had a chance to re-charge your batteries ready for a new school year! **A VERY WARM** welcome to all our new pupils in the Nursery class and the other classes and of course to all our pupils. Welcome back also to Miss Ann who has re-joined us to work with the Nursery children.

Here are some reminders:-

Breakfast Club - Ysgol Glan Conwy pupils are welcomed at the Breakfast Club after filling in the relevant forms. Please remember that the club does not start until **8.10 a.m.**. **NO CHILD SHOULD BE HERE BEFORE 8.10a.m. For health and safety reasons the Breakfast Club staff will not be responsible for the children until 8.10a.m. and the school staff are not responsible for the children until 8.45a.m.** The school door and gate will be locked until 8.10am and from 8.30am until 8.45am. We hope you will co-operate with us on this issue and not take advantage of people's good nature.

Healthy School - As we are a healthy school we encourage everyone to bring a healthy snack to school i.e. fruit and **not sweets or cereal bars full of sugar**. This also does include drinks. Water is available for the children. We do ask that they bring their own bottle or container (which they can fill) from the water dispenser for hygiene purposes.

Attendance - A big thank you to everyone for working with us to reduce holidays taken during term time. We are again aiming for each pupils' attendance to be above 96%.Our attendance figure for 2017-18 was 95.2%.

Big congratulations to the five pupils who achieved 100% attendance last year and also to the 72 pupils who reached 96% or above.Fantastic!

We will be tracking children's attendance weekly and will contact you if we have any concerns about your child's attendance**. I will be unable to authorise any holidays unless your child's attendance is at least 94%, and then only in exceptional circumstances** (up to 5 days)**.**

If your child's attendance is below 90% it will be questioned and may be referred to the Education Welfare Officer. This includes unauthorised and authorised absenteeism (including medical and **holidays**). If your child is absent for some reason it is important that you contact the school as soon as possible by either phoning the school or by sending a letter explaining the reason. Thank you.

Physical Education Autumn Term - Could you please ensure your child has their P.E. clothes in school for their P.E. lessons.Black shorts and white t-shirt. In cold weather pupils are permitted to were joggers and a sweat shirt. (It is a good idea to leave their clothes here all week so that the clothes are in school for the second session.)

Nursery	- Thursday	Reception & Yr 1	- Tuesday and Thursday
Years 2	- Tuesday & Wednesday	Years 3 and 4	- Tuesday
Year 5 and 6	- Friday		

Pupils from Yrs 3,4,5 and 6 will be attending an intense course of swimming lessons again this year, for a fortnight from 5th November**(5/11/18-16/11/18)**. More details to follow.

School Dinners

Daily cost of a school meal is £2.30

Please could you pay in advance each week. You are welcome to make payments in advance for several weeks if you prefer. There are 8 weeks in this half term.

It would be preferable if payments were made through the Parentpay website (please contact the office should you require an activation code or any assistance) If you are unable to pay via this website then you can pay through the school office. Cheques-to be made payable to Conwy County Borough Council. Cash -**ALL MONEY** has to be put in pan envelope with your child's **name, class and the days he/she has school dinners** clearly labelled. We will **NOT** accept any loose monies as we need to ensure that your monies reach us safely and does not go missing. As you can imagine we have monies handed in for lots of different activities during the week and we need to ensure that monies are allocated to the correct budget. Thank you for your cooperation in this matter.

If outstanding dinner money is not paid within the week dinners are received then we will be unable to provide any further meals until these monies are received and you will therefore need to provide a packed lunch for your child. Unfortunately the school does not have sufficient funds in reserve to cover the cost of unpaid meals.

Fruit Shop

Pupils from Year 5&6 are taking responsibility for the fruit shop this year as part of their numeracy skills work. From next Monday onwards the cost of the fruit shop is 30p per day or £1.50 per week. To prevent any confusion for the pupils running the shop we ask you to pay:-

- 30p daily *Weekly – £1.50 on a Monday only. Not part payment for the week.
- Per half term - £10.20 from next Monday to half term.

Clothes - Could you please ensure your child's clothes are clearly labeled with their name. Thank you.

Thank you for your support and cooperation with the above issues.